

DOLEN Y TAB – 37

8–9 Ionawr 2020

OEDFA RITHIOL 10 IONAWR

Yng ngofal Geraint Rees

YR OEDFAON NESAF

Ionawr

17 Oedfa Deuluol – Y Teulu Morse

24 Y Parchg. Gethin Rhys

31 Emlyn Davies

Chwefror

7 Pentref Pentyrch

14 Y Parchg. Aled Edwards

Hefyd ar 10 Ionawr. . .

12.00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Charlotte Rushton, Merthyr Tudful

12.30 Radio Cymru

Bwrw Golwg gyda John Roberts

E-fwletin Cristnogaeth21 newydd i'w weld bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Apêl

Os oes rhywrai fyddai'n fodlon cyfrannu at oedfaon 2021, plis wnewch chi gysylltu gyda Geraint Rees. Mae angen pob talent arnom i gynnal y llif o amrywiaeth ar gyfer Suliau gweddill y flwyddyn.

Diolch yn fawr.

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod cyntaf 2021 o'r Bwrdd nos Fercher 13 Ionawr. Os oes gennych unrhyw fater yr hoffech ei godi yn y cyfarfod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205) erbyn nos Sul 10 Ionawr.

Diolch.

RHANDIROEDD

Estynnir gwahoddiad i aelodau o'r Tabernacl i roi cynnig am un o'r tri llain newydd sydd ar gael bellach yn rhandir y capel yn dilyn yr holl waith a wnaed i gymhennu tiroedd yr eglwys. Yn y lle cyntaf mae'r cynnig hwn wedi ei gyfyngu i aelodau'r eglwys yn unig, ond os na ddangosir diddordeb ymhlith yr aelodau yna fe estynnir y gwahoddiad i'r gymuned ehangach ym mhentref Efail Isaf.

Os oes gennych ddiddordeb, neu i gael rhagor o fanylion, cysylltwch naill ai gydag Emlyn 'Pens' Jones (pens37@outlook.com / 07881 501137) neu Mike West (mikealynwest@yahoo.co.uk / 07974 186596).

BEDYDDIADAU

Aeth naw mis heibio ers i ni golli Jane Eryl Jones mor ddisymwth ganol mis Ebrill y llynedd. Bydd holl aelodau'r Tabernacl yn cofio am ei chyfraniad gwerthfawr i nifer o agweddau o waith yr eglwys, ond ei phrif gymwynas oedd y gofal a'r urddas a osododd wrth weinyddu'r bedyddiadau yn y capel. Rydym yn byw yn y gobaith y bydd modd i'r gynulleidfa ail-ymgynnull yn y Tabernacl o fewn ychydig fisoedd, ac felly mae'r Bwrdd yn awyddus iawn i glywed gan unrhyw un yn eich plith sy'n fodlon gofalu am y gwaith pwysig ond pleserus hwn. Cysylltwch â'r Ysgrifennydd (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205) os oes diddordeb gennych neu os hoffech dderbyn rhagor o fanylion.

Tafod y Tab

Daeth yr amser unwaith yn rhagor i wahodd cyfraniadau i rifyn mis Ionawr o Tafod y Tab. Yn ôl ein harfer byddwn yn croesawu adroddiadau a lluniau ac unrhyw eitemau eraill fyddai o ddiddordeb i'w cynnwys yn y Tafod.

Dylid anfon unrhyw gyfraniadau neu awgrymiadau at Gwilym ac Eleri (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205) erbyn Dydd Iau 21 Ionawr.

YR YSTWYLL

WASHINGTON DC,
6 Ionawr 2021

Yn rhifyn 1 Ionawr 2021 o'r *Goleuad*, wythnosolyn Eglwys Bresbyteraidd Cymru, mae'r ysgolhaig Gruffydd Aled Williams, Aberystwyth yn tynnu sylw at gerdd grefyddol adnabyddus y dramodydd a'r bardd T.S. Eliot, *Journey of the Magi*, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1927. Nid yn unig mae'n adrodd cefndir cyfansoddi'r gerdd ac yna'n ei dehongli mewn ysgrif hynod ddifyr, ond mae e hefyd wedi llunio cyfieithiad Cymraeg campus ohoni dan y teitl 'Taith y Doethion'. Ynndi mae un o'r doethion, mewn gwth o oedran, yn rhannu ei brofiadau flynyddoedd ynghynt o'r daith drafferthus a blinderus ar drywydd y seren, a'r effaith gafodd yr olygfa a welsant ym Methlehem ar ei fywyd wedi hynny. Rhag i mi wneud cam â'r ysgrif a'r cyfieithiad, carwn eich cyfeirio at y rhifyn o'r *Goleuad* sydd ar gael yn hwylus ar y we ([Goleuad | Eglwys Bresbyteraidd Cymru \(ebcpcw.cymru\)](#)). Yr unig sylw y carwn ei wneud yw ei fod yn waith o sylwedd, felly peidiwch â disgwyl darllen antur ramantaidd am y daith o'r dwyrain!

Yn draddodiadol, yn y byd gorllewinol o leiaf, ar y deuddegfed diwrnod o Wyl y Nadolig, sef 6^{ed} Ionawr, y cyrhaeddodd y doethion bentref Bethlehem. Yr Ystwyll yw'r enw Cymraeg a roddwyd ar yr wyl Gristnogol hon, enw sy'n tarddu o'r gair Lladin *stella*, ac ystyr Ystwyll yw Gwyl y Seren. Dyma sydd hefyd yn

Capel y Tabernacl Cyf.

Rheolwr Safle

Gwahoddir ceisiadau am y swydd ran-amser

Am fanylion pellach, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Mike West

[mikealynwest@yahoo.co.uk/](mailto:mikealynwest@yahoo.co.uk)

01443 206833

Gwilym Huws

[gehpengwern@yahoo.co.uk/](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)

01443 225205

esbonio pam ei bod yn arferiad tynnu addurniadau a goleuadau'r Nadolig i lawr erbyn 6^{ed} Ionawr. 'Epiffani'r Arglwydd Iesu' yw'r enw a roddir yn aml i'r dyddiad gan yr Eglwys yng Nghymru – term sy'n tarddu o'r gair Groegaidd 'epiphaneia', sef 'ymddangosiad Crist'.

Ond o 2021 ymlaen, o leiaf yn yr UDA, fe gaiff y dyddiad hwn ei gofio am amser maith fel un o'r rhai peryclaf yn ei holl hanes. Dyma'r dyddiad yr ymosododd cefnogwyr yr Arlywydd Donald Trump ar gonglfaen democrataidd y weriniaeth ar Capitol Hill, sef safle'r Gyngres a chartref llywodraethol UDA, i geisio gwyrddroi canlyniadau etholiad 2020. Y drychineb fwyaf o lawer yw mai'r Arlywydd ei hun fu'n annog ei gefnogwyr selocaf i greu anhrefn llwyr.

Roedd y golygfeydd a welwyd ar ein setiau teledu o'r terfysg ar y noson yn tystio i'r casineb roedd Trump wedi ei hau, ac mor agos y daethpwyd at ddymchwel y Cyfansoddiad a luniwyd mor ofalus gan sylfaenwyr y wladwriaeth ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif.



Jake Angeli, un o'r terfysgwyr

Does ond gobeithio y bydd y digwyddiad torcalonnus hwn yn profi, ymhen amser, i fod yn drobwynt unwaith ac am byth yn y polareiddio cas sydd wedi'i wreiddio mor ddwfn yng ngwleidyddiaeth yr UDA dros y blynyddoedd diwethaf. A hyderwn hefyd y bydd aelodau eglwysi efengylaidd asgell dde y wlad yn dewis ymwrthod ag arweinyddion gwleidyddol a chanddynt dueddiadau demagogiaidd. Pe digwyddai hynny, gellid cyfiawnhau mynd ati i sefydlu 6^{ed} Ionawr yn wyl gyhoeddus ystyrion fel ar y 4^{ydd} Gorffennaf yn yr UDA.

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.*

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: gehpengwern@yahoo.co.uk / 07710 237327 / 01443 225205.